

YSGOL DAVID HUGHES

NODIADAU PWYSIG I RIENI

Cefndir i'r defnydd o fiometreg mewn ysgol

Er mwyn egluro, gwybodaeth fiometrig yw gwybodaeth am nodweddion corfforol neu ymddygiadol unigolyn a ellir ei defnyddio i'w hadnabod. Mae yna lawer o fiometrigau posibl, gan gynnwys, er enghraifft, ffotograff digidol, ôl bys neu siâp llaw. Fel rhan o'n systemau rheoli adnabyddiaeth, byddwn yn cofnodi mesuriad biometrig a gymerir o'r bys, ond nid delwedd o'r ôl bys. Cedwir y wybodaeth mewn cronfa ddata hynod o ddiogel a chaiff ei defnyddio gan yr ysgol yn unig i gadarnhau pwy sy'n defnyddio ystod o wasanaethau. Yn y dyfodol galledd ddefnyddio gwasanaethau biometrig eraill lle bo hynny'n briodol.

Mae ein dewis o system yn caniatâu i ni ddefnyddio cronfa ddata ddiogel sy'n dal data biometrig ar gyfer eu defnyddio gydag ystod o wasanaethau. Mae hyn yn golygu y byddwn yn storio'r swm lleiaf posibl o ddata. Mae hyn yn lleihau'r risg o golli data.

Ni ellir defnyddio'r data a gedwir gan unrhyw asiantaeth arall i unrhyw ddiben arall.

Ni fydd yr ysgol yn defnyddio'r wybodaeth fiometrig i unrhyw ddiben heblaw'r rhai a nodir uchod. Bydd yr ysgol yn storio'r wybodaeth fiometrig a gasglwyd yn ddiogel yn unol â Deddf Gwarchod Data 1998. Ni fydd yr ysgol yn rhannu'r wybodaeth hon gydag unrhyw un arall ac ni fydd yn ei datgelu yn anghyfreithlon i unrhyw berson arall.

Deddfwriaeth Gyfredol – Deddf Diogelu Rhyddidau 2012

Mae'r ddeddfwriaeth yma yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r ysgol:

- Hysbysu rhieni am y defnydd o systemau biometrig yn yr ysgol ac egluro pa gymwysiadau sy'n defnyddio biometreg.
- Derbynn caniatâd ysgrifenedig oddi wrth un rhiant os yw'r ysgol i brosesu gwybodaeth biometrig ar gyfer eu plentyn.
- Caniatâu i blant ddewis ffordd arall o gael eu hadnabod os dymunant.
- Ni fydd plant o dan 18 sydd heb gael caniatâd erbyn Medi 2013 yn medru defnyddio biometreg presennol neu newydd pan yn defnyddio gwasanaethau yn yr ysgol.

Os nad ydych yn dymuno i'ch plentyn ddefnyddio'r system fiometrig neu bod eich plentyn yn dewis defnyddio ffurf arall o'i hadnabod, byddwn yn darparu trefniadau eraill rhesymol sy'n caniatâu iddynt gael mynediad at wasanaethau cyfredol neu yn y dyfodol.

Petaech yn cytuno i brosesu gwybodaeth fiometrig eich plentyn, mae'n bwysig eich bod yn dychwelyd y ffurflen ganiatâd, wedi ei llofnodi, cyn gynted â phosibl. Nodwch pan fydd ef/hi yn gadael yr ysgol, neu os bydd ef/hi yn darfu defnyddio'r system fiometrig am unrhyw reswm, bydd ei (d)data biometrig yn cael eu dileu yn barhaol.

Petaech yn dymuno trafod hyn mewn mwy o fanylder, cysylltwch â'r ysgol os gwelwch yn dda.